Dogfen Hunanwerthuso AAA/ADY

Rhagfyr 2010

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

CYNNWYS

		Tudalen
Beth yw Hunanwerthuso AAA/ADY?		3
Cwestiwn Allweddol 1	Pa mor dda yw'r deilliannau?	4
1.1	Safonau	4
1.2	Lles	6
Cwestiwn Allweddol 2	Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	8
2.1	Profiadau Dysgu	8
2.2	Addysgu	10
2.3	Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad	13
Cwestiwn Allweddol 3	Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	15
3.1	Arweinyddiaeth	15
3.2	Gwaith Partneriaeth	18
3.3	Gwella Ansawdd	20
3.4	Rheoli Adnoddau	21
Cydnabyddiaeth		23

BETH YW HUNANWERTHUSO AAA/ADY?

Mae hunanwerthuso trylwyr wrth wraidd gwella ysgol effeithiol a reolir yn dda.
Mae hunanwerthuso bellach yn elfen allweddol o bob arolygiad ysgol ac mae hwn yn offeryn sy'n gallu cefnogi gwella.
Mae'n cynnwys archwilio prosesau a gweithdrefnau'r ysgol, a'u heffaith ar yr holl blant (gan gynnwys y rhai ag anghenion amrywiol), yn fanwl.



ADRODDIAD HUNANWERTHUSO AAA/ADY YR YSGOL

Disgwyliedig – Mae'r ysgol yn cydnabod mai dechrau'r broses yw hwn. Mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â rhai meysydd i'w datblygu.
Yn datblygu – Mae'r ysgol wedi nodi cryfderau a gwendidau ac mae angen datblygiad pellach i sicrhau a chryfhau arferion.
Yn dyfnhau – Mae llawer o arferion yn eu lle ac yn cael eu sefydlu. Mae ansawdd y ddarpariaeth wedi cael ei ddatblygu'n sylweddol a chafwyd effaith bendant ar safonau. Mae rhai agweddau i'w trin o hyd er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniad ar draws yr ysgol gyfan.
Yn trawsnewid – Ceir cysondeb ac arfer cydlynol ar draws yr ysgol gyfan. Caiff ymagweddau eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd. Mae'r gwerthusiadau hyn yn cyfeirio cynllunio i'r dyfodol. Mae'r ysgol yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bartneriaid. Mae'r ysgol yn cymharu ac yn rhannu arferion yn rheolaidd ag eraill. Ceir tystiolaeth glir o effaith arfer ar safonau a chynnydd.

CWESTIWN ALLWEDDOL 1 Pa mor dda yw'r deilliannau?

Sut rydych chi'n gwybod?
Beth yw'r effaith ar y plentyn?

1.1 Safonau

Cwestiynau i'w gofyn	Disgwyliedig	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
1.1.1 A ddefnyddir data craidd i nodi pob ADY?						
1.1.2 A yw plant ag AAA/ADY yn gallu dysgu o'u perfformiad eu hunain a'i wella?						
1.1.3 Sut mae'r ysgol yn darparu ymyriad cynnar a chefnogaeth pwrpasol i godi perfformiad pob disgybl?						

1.1.4	A yw'r dysgwyr ag AAA yn gwneud cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r targedau a bennir?						
1.1.5	Pa ddata sy'n nodi a rhoi tystiolaeth o gynnydd?						
1.1.6	A yw llywodraethwyr yn ymwneud â chraffu data a chynnydd y disgyblion ag AAA?						
1.1.7	Sut mae'r SENCO yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei hysbysu am ymagweddau i wella safonau?						
1.1.8	A gaiff cynnydd y dysgwyr ag AAA/ADY ei werthuso a'i ystyried yn llawn gan yr holl staff?						
1.1.9	Os nodwyd amrywiaeth yn yr ysgol rhwng cyrhaeddiad y disgyblion ac ar draws meysydd cwricwlaidd a chyfnodau allweddol neu adrannau, sut eir i'r afael â hyn?						

Gall tystiolaeth gynnwys:

Dogfennau:

- Data asesiadau, gan gynnwys canlyniadau arholiadau allanol lle bo hynny'n berthnasol
- Tystiolaeth o alluoedd y disgyblion adeg eu derbyn
- Adroddiad hunanwerthuso'r ysgol
- Gwybodaeth am y targedau ar gyfer gwella a bennwyd gan yr ysgol
- Asesiadau athrawon a chofnodion o gynnydd a chyflawniad y disgyblion
- Barn rhieni fel y mynegwyd yn yr holiadur
- Canlyniadau arolygon, taflen olrhain S Forbes
- Proffil yr ysgol
- Olrhain y disgyblion
- Gwaith y disgyblion wedi'i farcio
- Setiau data craidd
- Cynllunio ar gyfer pontio
- Polisi AAA/ADY
- DPP ar gyfer yr holl staff
- Data safonol gwaelodlin

Arsylwi:

- Gwaith y disgyblion
- Arsylwi gwersi, sesiynau a gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth
- Effaith polisi ac arfer yr ysgol ar gyfer cyfle cyfartal ar safonau cyflawniad
- Rhannu arfer da – dosbarth i ddosbarth; ysgol i ysgol; clwstwr i glwstwr

Trafod:

- Trafod â'r disgyblion
- Trafod â'r staff, arbenigwyr y'n ymweld a rhieni
- Trafod â'r llywodraethwyr
- Trafod â rhwydweithiau e.e. cyfarfodydd Rhwydwaith SENCO etc.
- Trafod â rhieni am CAU a chynnydd y disgyblion
- Cymunedau Dysgu Proffesiynol

1.2 Lles

Cwestiynau i'w gofyn	Disgwyliedig	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
1.2.1 Pa dystiolaeth a geir i ddangos cyfranogiad y disgyblion?						
1.2.2 A yw plant ag AAA/ADY yn gallu gweithio gydag eraill?						
1.2.3 A yw disgyblion ag AAA/ADY yn cael eu hannog i ddangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn cael y cyfle a'r gefnogaeth?						
1.2.4 A oes darpariaeth ychwanegol briodol ar gael i'r holl ddisgyblion ar bob lefel Gweithredu'r Ysgol?						
1.2.5 A gaiff plant ag AAA/ADY eu cynrychioli ar Gyngor yr Ysgol?						
1.2.6 A yw plant ag AAA/ADY yn gallu manteisio ar gyfleoedd allgyrsiol?						
1.2.7 A gaiff presenoldeb y disgyblion ag AAA/ADY ei fonitro?						
1.2.8 A yw'r plant ag AAA/ADY yn hapus ac yn derbyn gofal a chefnogaeth yn yr ysgol?						

1.2.9 A oes cynlluniau gofal iechyd yn eu lle i'r rhai y mae eu hangen arnynt?						
1.2.10 A gaiff y plant ag AAA/ADY eu gwneud yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau?						

Gall tystiolaeth gynnwys:

Dogfennau:	**Arsylwi:**	**Trafod:**
➲ Datganiadau polisi a rhaglenni'r ysgol, a chynlluniau gweithredu ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, gan gynnwys addysg rhyw, cydraddoldeb hil, cyfle cyfartal a bwlio. ➲ Gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion meddygol, gan gyfeirio at Gylchlythyr WO 34/97 – Cefnogi Disgyblion ag Anghenion Meddygol mewn Ysgolion a'r Arweiniad Arfer Da cysylltiedig (Rhagfyr 1997) ➲ Darpariaeth ar gyfer plant yng ngofal yr awdurdod lleol, gan gynnwys cyfranogiad yr ysgol wrth lunio ac adolygu cynlluniau gofal ➲ Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau a hybu presenoldeb, lles, iechyd a diogelwch y disgyblion ➲ Polisi'r ysgol a'i darpariaeth ar gyfer addysg ac arweiniad gyrfaoedd, gan gynnwys cytundebau partneriaeth ➲ Polisi a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol ➲ Gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion meddygol ➲ Darpariaeth ar gyfer plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol ➲ Cynlluniau gofal iechyd ➲ Presenoldeb y disgyblion ➲ Polisi ABCh ➲ Cynlluniau athrawon	➲ Arsylwi tasgau grŵp/pâr yn y dosbarth ➲ Cyfrifoldebau ➲ Gweithgareddau allgyrsiol ➲ Gwaith y disgyblion	➲ Barn y rhieni/plentyn ➲ Trafodaethau CAU ➲ Trafodaethau ag athrawon/staff

CWESTIWN ALLWEDDOL 2 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

2.1 Profiadau Dysgu

Cwestiynau i'w gofyn	Disgwyliedig	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn Trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
2.1.1 A gaiff targedau sy'n rhan o gontinwwm targedau'r cwricwlwm eu pennu i bob dysgwr?						
2.1.2 A all pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag AAA/ADY, gael mynediad i gwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol ar y cyfnodau priodol?						
2.1.3 A yw'r disgyblion yn cael adborth am eu cynnydd a'u cyrhaeddiad?						
2.1.4 A ddefnyddir TGCh yn effeithiol i gefnogi'r disgyblion ag AAA/ADY?						
2.1.5 Pa adnoddau sydd ar gael i gefnogi plant ag AAA/ADY er mwyn iddynt gael profiadau dysgu cadarnhaol?						

Dogfennau:	Arsylwi:	Trafod:
➲ Datganiadau polisi'r ysgol ➲ Polisi'r ysgol a'i darpariaeth ar gyfer addysg ac arweiniad gyrfaoedd, gan gynnwys cytundebau partneriaeth ➲ Datganiadau AAA, cynlluniau, rhaglenni a gweithdrefnau adolygu unigol ➲ Gwasanaethau Partneriaeth Rhiant e.e. SNAP ➲ Dogfennaeth CAU, gan gynnwys adolygiadau ➲ Dogfennau cynllunio – yn dangos pob achos o gyfranogiad y staff	➲ Y cyfarfodydd cyn yr arolygiad â rhieni a'r llywodraethwyr ➲ Arsylwi gwersi, gan gynnwys cyfnodau tiwtoriaid, addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg gyrfaoedd, lle bo'n berthnasol ➲ Ansawdd cofnodion y disgyblion a'r defnydd ohonynt ➲ Cysylltu ag asiantaethau allanol a'r defnydd o gefnogaeth arbenigol ➲ Lefel y ddarpariaeth staffio	➲ Barn rhieni fel y'i mynegwyd yn y cyfarfod rhieni cyn yr arolygiad ➲ Trafod â'r athrawon a'r disgyblion lle bo'n briodol

➲ Map y ddarpariaeth ➲ Tystiolaeth TGCh – rhaglenni, gwaith y disgyblion, cyfathrebu ➲ Rhai sy'n ymwneud â chynllunio rhagfynegiadau cynllunio gwaith o ddydd i ddydd, cynlluniau gwersi a nodiadau am ddisgyblion unigol ➲ Disgrifiadau swydd ➲ Dogfennaeth asesu'r ysgol ➲ Cofnod o gyflawniadau'r disgyblion ac adroddiadau ➲ Amserlen ar gyfer darpariaeth ➲ Dadansoddiad data ➲ Tystiolaeth o gydweithio rhwng y CA a'r athro/athrawes	➲ Trefniadau addysgu a chefnogaeth ar gyfer y disgyblion hyn, gan gynnwys y defnydd o athrawon a gwasanaethau cefnogi, cynorthwywyr cefnogi dysgu, arbenigwyr meddygol, parafeddygol a nyrsio, seicolegwyr ac asiantaethau allanol eraill; trefniadau ar y cyd ag ysgolion eraill, gan gynnwys yng nghyd-destun Cynllun Cefnogi Ymddygiad yr ALl ➲ Gwybodaeth a gweithdrefnau sgrinio ac asesu ➲ Ystafelloedd, cyfarpar, cymhorthion ac adnoddau arbenigol eraill, faint o fynediad corfforol i ddisgyblion ag anableddau a ddarperir ➲ Arsylwi gwersi ➲ Gwaith y disgyblion ➲ Rhoi adborth i'r rhieni, y disgyblion a'r staff	

2.2 Addysgu

Cwestiynau i'w gofyn	Disgwyliedig	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
2.2.1 A yw'r holl athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am anghenion y dysgwyr?						
2.2.2 Beth yw effaith yr addysgu ar y plentyn yn yr ystafell ddosbarth?						
2.2.3 Ar yw'r holl athrawon yn cynnwys pob disgybl?						

2.2.4	A gaiff tystiolaeth briodol ei hanfon at yr AALl ar gyfer cyfeirio am asesiad statudol?						
2.2.5	A yw pob aelod o'r staff yn gwybod pa blant sydd â datganiadau a chynnwys y rhain?						

2.2.6	A yw'r addysgu'n rhoi ystyriaeth lawn i wybodaeth a thargedau mewn CAU a datganiadau?						
2.2.7	A oes CAU gan bob disgybl y mae ei angen arno/i?						
2.2.8	A all y disgyblion ag AAA gael mynediad i ystod lawn y cwricwlwm a chyfleoedd eraill a ddarperir gan yr ysgol?						
2.2.9	A gaiff yr addysgu ei wahaniaethu?						
2.2.10	A yw'r dulliau a'r ymagweddau a ddefnyddir yn cydweddu i anghenion, galluoedd a dulliau dysgu'r disgyblion er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl?						
2.2.11	A gaiff yr addysgu ei gynllunio'n dda?						
2.2.12	A wneir darpariaeth ychwanegol briodol i bob disgybl ar bob lefel o'r Ymateb Graddedig?						
2.2.13	A yw'r CA'n cyfrannu at y cynllunio er mwyn darparu'n effeithiol ar gyfer y disgyblion ag AAA/ADY?						
2.2.14	A oes disgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ag AAA/ADY ei						

	gyflawni?					
2.2.15	A yw trefniadau addysgu ar gyfer tynnu disgyblion o'r dosbarth neu ddarparu cefnogaeth yn y dosbarth ar eu cyfer yn cael eu cynllunio'n ddigon da i alluogi dysgu effeithiol?					
2.2.16	A gedwir cofnodion cywir o'r plant ag AAA/ADY?					

Gall tystiolaeth gynnwys:

Dogfennau:	**Arsylwi:**	**Trafod:**
➲ Datganiadau polisi a rhaglenni'r ysgol ➲ Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau a hybu presenoldeb, lles, iechyd a diogelwch y disgyblion ➲ Datganiadau AAA, cynlluniau, rhaglenni a gweithdrefnau adolygu unigol ➲ Gwasanaethau Partneriaeth Rhieni e.e. SNAP ➲ Dogfennaeth CAU, gan gynnwys adolygiadau ➲ Dogfennau cynllunio – yn dangos pob achos o gyfranogiad y staff ➲ Map y ddarpariaeth ➲ Tystiolaeth TGCh – rhaglenni, gwaith y disgyblion, cyfathrebu ➲ Rhai sy'n ymwneud â chynllunio rhagfynegiadau gwaith o ddydd i ddydd, cynlluniau gwersi a nodiadau am gynnydd y disgyblion ➲ Disgrifiadau swydd ➲ Dogfennaeth asesu'r ysgol ➲ Cofnodion o gyflawniadau'r disgyblion ac adroddiadau ➲ Amserlen ar gyfer darpariaeth ➲ Dadansoddiad data ➲ Tystiolaeth o gydweithio rhwng CA ac athrawon	➲ Y cyfarfodydd cyn yr arolygiad â rhieni a'r llywodraethwyr ➲ Arsylwi gwersi, gan gynnwys cyfnodau tiwtoriaid, gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg gyrfaoedd, lle bo'n briodol ➲ Ansawdd cofnodion y disgyblion a'r defnydd ohonynt ➲ Cysylltu ag asiantaethau allanol a'r defnydd o gefnogaeth arbenigol ➲ Lefel y ddarpariaeth staffio ➲ Trefniadau addysu a chefnogaeth ar gyfer y disgyblion hyn, gan gynnwys y defnydd o athrawon a gwasanaethau cefnogi, cynorthwywyr cefnogi dysgu, arbenigwyr meddygol, parafeddygol a nyrsio, seicolegwyr ac asiantaethau allanol eraill; trefniadau ar y cyd ag ysgolion eraill, gan gynnwys yng nghyd-destun Cynllun Cefnogi Ymddygiad yr ALl ➲ Gwybodaeth a gweithdrefnau sgrinio ac asesu ➲ Ystafelloedd, cyfarpar, cymhorthion ac adnoddau arbenigol eraill, faint o fynediad corfforol i ddisgyblion ag anableddau a ddarperir ➲ Arsylwi gwersi ➲ Gwaith y disgyblion ➲ Rhoi adborth i'r rhieni, y disgyblion a'r staff	➲ Barn rhieni fel y'i mynegwyd yn y cyfarfod rhieni cyn yr arolygiad ➲ Trafod â'r athrawon a'r disgyblion lle bo'n briodol

2.3 Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad

Cwestiynau i'w gofyn	Disgwyliedig	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
2.3.1 A oes CAU gan bob disgybl y mae ei angen arno/i?						
2.3.2 A gaiff targedau CAU ar gyfer pob cyfnod eu cwblhau o leiaf ddwywaith y flwyddyn?						
2.3.3 A yw'r disgyblion ag AAA yn rhan o'r broses adolygu a phennu targedau ar gyfer eu CAU?						
2.3.4 A yw'r staff, y rhieni a'r disgyblion yn gyfrifol am y CAU?						
2.3.5 A yw'r CAU yn hwylus ac yn GRAFF?						
2.3.6 A yw'r CAU yn dangos cynnydd?						
2.3.7 A oes trefniadau yn eu lle i sicrhau nad yw'r disgyblion ag anableddau'n cael eu trin yn llai ffafriol?						
2.3.8 A oes modd i'r rhai ag anableddau weld yr wybodaeth a drosglwyddir?						

2.3.9	A yw'r holl ddisgyblion yn profi gweithgareddau sy'n eu cyfoethogi yn yr ysgol a'r tu allan iddi?						
2.3.10	A yw'r disgyblion â datganiadau AAA/ADY yn rhan o'r adolygiad blynyddol a'r broses pennu targedau ar gyfer eu CAU?						
2.3.11	A yw'r holl blant yn cyfrannu at y CAU ac a gaiff eu barn ei hystyried a'i chynnwys yn y ddogfen?						
2.3.12	A gaiff y plant eu hannog i i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ac a ydynt i gyd yn bresennol ym mhob adolygiad?						
2.3.13	A yw addysgu a gwerthuso'r CAU yn arwain at gamau gweithredu nesaf?						
2.3.14	A gaiff lleoli ar y gofrestr AAA/ADY ei adolygu'n rheolaidd?						
2.3.15	A gaiff y gofrestr AAA ei monitro?						
2.3.16	A wneir trefniadau pontio effeithiol ar adegau allweddol yn addysg y disgyblion?						
2.3.17	A oes cyrsiau addas ar gael i ddiwallu anghenion y disgyblion AAA/ADY?						
2.3.18	A oes cefnogaeth i'r disgyblion						

	wneud dewisiadau ar gyfer cam nesaf eu dysgu?						
2.3.19	A oes cefnogaeth ar gael i'r disgyblion ag AAA/ADY gymryd rhan mewn cyfleoedd gwaith?						

2.3.20	A oes trefniadau pontio effeithiol ar waith i'r plant ag AAA/ADY?						
2.3.21	A oes gweithdrefnau clir ar gyfer nodi, asesu ac ymyrryd AAA/ADY ac a ddefnyddir y rhain gan bob aelod o'r staff?						
2.3.22	A ddefnyddir offer asesu ysgol gyfan ar gyfer ymyrryd cynnar?						
2.3.23	A gaiff gwybodaeth ei throsglwyddo'n systematig i bob aelod o'r staff sy'n eu haddysgu o CAU a datganiadau?						
2.3.24	A roddir cyngor dilynol gan asiantaethau allanol?						
2.3.25	A oes gweithdrefnau yn eu lle i nodi anghenion dysgu unigol?						
2.3.26	Sut mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth ac arweiniad i'r disgyblion gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, ethnig, addysgol ac ieithyddol?						

Gall tystiolaeth gynnwys:

Dogfennau:	**Arsylwi:**	**Trafod:**
➲ Datganiadau polisi ➲ Gweithdrefnau statudol gan gynnwys Amddiffyn Plant ➲ Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu Ar Sail Anabledd ➲ Cynllun Cydraddoldeb Anabledd ar waith ac wedi'i ddiweddaru ➲ Map y ddarpariaeth ➲ Dogfennaeth ac adolygiadau CAU ➲ Llawlyfr/prosbectws ar gael i'r holl rieni/y gymuned etc. ➲ Data ynglŷn â phresenoldeb a pherfformiad ➲ Cofrestr/rhestr wedi'i diweddaru o'r disgyblion y mae angen darpariaeth ychwanegol arnynt	➲ Gwersi ➲ Y defnydd o gofnodion y disgyblion ➲ Cysylltu ag asiantaethau allanol ➲ Dogfennaeth fanwl o sut defnyddir y staff cefnogi i ddarparu ar gyfer y disgyblion ➲ Y cyfarpar arbenigol etc. a ddefnyddir	➲ Barn y rhieni/disgyblion ➲ Cyfarfod cynllunio â'r CA/athrawon sy'n ymwneud â'r disgyblion ag AAA/ADY

CWESTIWN ALLWEDDOL 3 Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

3.1 Arweinyddiaeth

Cwestiynau i'w gofyn	Disgwyliedig	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
3.1.1 A oes gweledigaeth glir ac a rennir ar gyfer AAA/ADY?						
3.1.2 Os caiff disgybl ei ddatgymhwyso, a wneir darpariaeth arall briodol?						
3.1.3 A gaiff gofynion y Côd Ymarfer Anabledd eu rhoi ar waith?						
3.1.4 A oes cysylltu effeithiol â'r Llywodraethwr AAA, y Corff Llywodraethu, yr UDRh a'r SENCO?						
3.1.5 A yw'r holl ddogfennaeth yn cyfeirio at gynhwysiad?						
3.1.6 A yw pob polisi wedi'i ddiweddaru a'i roi ar waith? - AAA/ADY - MAT - Cynhwysiad - Ymddygiad - Hygyrchedd - Cynllun Anabledd a Chydraddoldeb - EMLAS - Derbyniadau						

3.1.7	A oes adroddiad gwerthusol am y ddarpariaeth AAA yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni gan gynnwys cynllun datblygu AAA/ADY?						
3.1.8	A yw anghenion y CPD yn gysylltiedig â Chynllun Gwella/Datblygu'r Ysgol?						
3.1.9	A gaiff y ddarpariaeth AAA ei monitro am effeithiolrwydd?						
3.1.10	A yw'r polisi AAA yn cydymffurfio â rhestr wirio'r Côd Ymarfer?						
3.1.11	A gaiff gosod ar y gofrestr AAA/ADY ei adolygu'n rheolaidd?						
3.1.12	A gaiff y gofrestr AAA ei monitro'n rheolaidd?						
3.1.13	A gaiff adolygiadau blynyddol o ddatganiadau eu cynnal yn unol â'r Côd Ymarfer?						
3.1.14	A wneir cyfeiriadau'r ALl ar gyfer asesiadau statudol?						
3.1.15	A yw'r SENCO'n cydymffurfio â'r rôl yn y Côd Ymarfer?						
3.1.16	A oes cyfle i bob aelod o'r staff weld gwybodaeth gan gynnwys CAU a Chynlluniau Cefnogi Ymddygiad, a chynlluniau gofal iechyd i'r disgyblion maent yn eu haddysgu?						

3.1.17	A oes gan y rhai sy'n ymwneud ag AAA/ADY rolau wedi'u diffinio'n glir sy'n gysylltiedig ag agweddau AAA/ADY (e.e. disgrifiad swydd)?						
3.1.18	A yw'r rolau a'r cyfrifoldebau i'r holl blant ag AAA yn glir a phob aelod o'r staff yn eu deall yn dda?						
3.1.19	A yw arweinwyr yr ysgol yn sicrhau bod arferion monitro a gwerthuso effeithiol ar waith i sicrhau deilliannau cadarnhaol i'r disgyblion ag AAA/ADY?						

Gall tystiolaeth gynnwys:

Dogfennau:	**Arsylwi:**	**Trafod:**
➲ Prosbectws yr ysgol, llawlyfr y staff (os yw ar gael), gwefan yr ysgol (os yw ar gael), cynllun datblygu'r ysgol gan gynnwys targedau, nodau, amcanion a pholisïau, agendâu a chofnodion cyfarfodydd gan gynnwys cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethu ➲ Polisi staffio, y strwythur staffio presennol a'r rhesymeg ar gyfer datblygiadau'r dyfodol a disgrifiadau swydd ➲ Gwybodaeth am bolisïau a threfniadau rheoli cyllideb yr ysgol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dyrannu cyllid i benaethiaid cyllideb, a pholisïau codi tâl ➲ Gwybodaeth a gasglwyd trwy gydol yr arolygiad, gan gynnwys arsylwi gwersi, am reoli, ansawdd, dyrannu a defnyddio adnoddau'r ysgol o ran y staff, amser, adnoddau dysgu ac ystafelloedd ➲ Dadansoddiad data ➲ Dogfennaeth CAU/adolygiadau/asesiadau statudol ➲ Anghenion DPP pob aelod o'r staff yn gysylltiedig â Chynllun Gwella'r Ysgol	➲ Arsylwi'r ysgol ar waith, gan gynnwys cyfarfodydd	➲ Trafodaethau â'r corff llywodraethu, y pennaeth, y staff, y staff cefnogi a'r disgyblion ➲ Gwybodaeth a gasglwyd gan y rhieni cyn yr arolygiad

3.2 Gwaith Partneriaeth

Cwestiynau i'w gofyn	Disgwyliedi8g	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
3.2.1 A gaiff Cynorthwywyr Addysgu eu cefnogi yn eu rôl?						
3.2.2 A ddefnyddir asiantaethau allanol yn briodol? - Mynediad i Ddysgu e.e. Seicolegydd Addysg - Gwasanaethau Cymdeithasol e.e. tîm o amgylch y plentyn - Effeithiolrwydd Addysg e.e. Cynghorwyr - Gwaith ieuenctid/chwarae						
3.2.3 Pa dystiolaeth a ddefnyddir i ddangos deilliannau asiantaethau allanol?						
3.2.4 A oes prosesau cyfeirio clir i gyfathrebu a chynnwys asiantaethau allanol gan gynnwys mecanweithiau adborth?						
3.2.5 A oes adran glir yn y polisi AAA ynglŷn â nodi, monitro, gwerthuso a chysylltu ag asiantaethau allanol?						
3.2.6 Pa dystiolaeth a ddefnyddir i ddangos cyfranogiad rhieni?						

3.2.7 Sut caiff gwybodaeth am gynnydd y disgyblion ei rhannu â'r rhieni? Pa mor aml y gwneir hyn a sut?						
3.2.8 A gaiff pob rhiant/gofalwr ei hysbysu am Wasanaeth Partneriaeth Rhieni'r ALl ac a ddefnyddir y Gwasanaeth Datrys Anghydfod pan fo'n briodol e.e. SNAP?						
3.2.9 A yw cysylltiadau bugeiliol a chwricwlaidd ag ysgolion eraill yn effeithiol?						
3.2.10 A yw'r corff llywodraethu'n deall ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag AAA/ADY?						

Gall tystiolaeth gynnwys:

Dogfennau:	**Arsylwi:**	**Trafod:**
➲ Cynllun datblygu'r ysgol a, lle bo'n briodol, cynlluniau datblygu adrannau neu bynciau ➲ Agendâu a chofnodion cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethu ➲ Polisïau'r ysgol a'r adrannau sy'n ymwneud â hunanwerthuso, a dogfennau wedi'u llunio yn sgîl rhoi'r polisïau hyn ar waith ➲ Disgrifiadau swydd a chynlluniau ar gyfer datblygiad proffesiynol ➲ Cyfranogiad y CA wrth gynllunio dogfennau, mewnbwn asiantaethau allanol – rhaglenni a chynlluniau e.e. cynlluniau gofal iechyd ➲ Dogfennau i ddangos y cysylltiadau â'r ysgolion clwstwr etc. ➲ Map y ddarpariaeth i ddangos strwythur clir nodi, darparu a monitro	➲ Arsylwi'r ysgol ar waith, gan gynnwys cyfarfodydd	➲ Trafodaethau â'r corff llywodraethu, y pennaeth, y staff, y staff cefnogi a'r disgyblion

3.3. Gwella Ansawdd

Cwestiynau i'w gofyn	Disgwyliedig	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
3.3.1 A roddir argymhellion arolygiadau blaenorol ar waith o ran AAA/ADY?						
3.3.2 A oes arfer effeithiol yn cael ei rannu sy'n galluogi i bob dysgwr elwa ar arfer cynhwysol ansawdd uchel?						
3.3.3 A gaiff anghenion HMS y SENCO a'r staff eu nodi a'u diwallu?						
3.3.4 A gaiff darpariaeth ei mapio gan adlewyrchu ymateb graddedig i angen?						
3.3.5 A sefydlir rhaglenni ymyrryd cynnar?						
3.3.6 Beth yw canlyniadau'r rhaglenni ymyrryd cynnar?						
3.3.7 Sut dysgir gwersi o arfer gorau yn yr ysgol a'r tu allan iddi?						
3.3.8 A yw'r staff cefnogi wedi'u hyfforddi'n dda fel bod safonau'r holl blant yn gwella?						
3.3.9 A yw pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant digonol i ddiwallu anghenion y disgyblion y maent yn gweithio gyda hwy?						

3.3.10	A yw'r SENCO wedi mynd ar y cwrs Diploma Graddedig 'Rhoi'r Côd Ymarfer ar Waith a'i Reoli' sy'n gymhwyster ar gyfer SENCOs?					
3.3.11	A gaiff anghenion hyfforddi pob aelod o'r staff eu nodi a'u cysylltu â Rheoli Perfformiad?					
3.3.12	A yw proses hunanwerthuso'r ysgol yn arwain at gynlluniau gwella sy'n arddangos y defnydd effeithlon o adnoddau ac yn rhoi gwerth am arian?					

3.4 Rheoli Adnoddau

Cwestiynau i'w gofyn		Disgwyliedig	Yn datblygu	Yn dyfnhau	Yn trawsnewid	FFYNHONNELL Y DYSTIOLAETH/GWERTHUSIAD	GWEITHREDU/DATBLYGU
3.4.1	A yw rheolaeth ariannol ar bob agwedd ar ariannu AAA yn effeithiol?						
3.4.2	A gaiff cyllideb AAA yr ysgol a ddirprwyir ei rheoli'n effeithiol?						
3.4.3	A oes gan y SENCO yr amser a'r adnoddau i wneud y swydd a gallu dylanwadu ar lunio polisi?						
3.4.4	A oes digon o amser digyswllt i'r SENCO wneud y gwaith hanfodol o gydlynu AAA/ADY?						
3.4.5	A gaiff y staff cefnogi eu dosbarthu a'u rheoli'n dda?						

3.4.6 A yw'r ysgol yn gwneud defnydd da o adnoddau cymunedol a gwirfoddol?						

Gall y dystiolaeth gynnwys:

Dogfennau:	**Arsylwi:**	**Trafod:**
➲ Dogfennaeth staffio, gan gynnwys Ffurflen Gwybodaeth yr Ysgol, llawlyfr i'r staff (os yw ar gael), y polisi datblygiad proffesiynol, disgrifiadau swyddi ac amserlenni ➲ Cofnodion cyfarfodydd y llywodraethwyr ➲ Map o'r ddarpariaeth ➲ Dogfen hunanwerthuso i fonitro effeithiolrwydd ➲ Adroddiadau arolygu –dogfen hunanwerthuso	➲ Archwilio pob ystafell a chyfleuster, gan gynnwys cyflwr, gwedd a defnydd adeiladau a thir yr ysgol a safon yr arddangosfeydd ➲ Archwilio'r adnoddau dysgu sydd ar gael, gan gynnwys darpariaeth lyfrgell, a chyfleoedd i'r disgyblion a'r staff fanteisio ar dewis addas o lyfrau, adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, cyfarpar ymarferol a deunyddiau clyweled i gefnogi dysgu ac addysgu yn ystod a'r tu allan i oriau'r ysgol ➲ Y defnydd o adnoddau y tu allan i'r ysgol, megis cyfleusterau preswyl, ymweliadau addysgol a chyfleusterau cymunedol ➲ Arsylwi gwersi	➲ Â'r holl randdeiliaid: - rhieni - disgyblion - asiantaethau allanol - athrawon - staff cefnogi - cymuned - llywodraethwyr

CYDNABYDDIAETH

Datblygwyd y ddogfen hunanwerthuso AAA wreiddiol mewn ymateb i geisiadau gan gydweithwyr am offeryn a fyddai'n eu helpu i werthuso'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Mae wedi bod yn llwyddiannus gydag ysgolion, yn enwedig at ddibenion arolygu. Felly, roedd yn bwysig diweddaru'r ddogfen er mwyn cydymffurfio â fersiwn newydd y Fframwaith Arolygu Cyffredin (FfAC). Mae'r FfAC yn canolbwyntio ar hunanwerthusiad yr ysgol ac yn defnyddio'r ddogfen i lunio llinellau ymholi.

Rydym yn cydnabod bod sawl ffurflen hunanwerthuso ar gael ond rydym yn cynnig hon fel offeryn yn y broses adolygu a hunanwerthuso yn yr ysgol.

Mae gan y ddogfen hon hefyd gysylltiadau â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfAC) gan ddefnyddio cwestiynau perthnasol i gefnogi meysydd y FfAC e.e. ymyriad a chefnogaeth.

Ein hamcan wrth ddiweddaru'r ddogfen hon oedd galluogi athrawon i ofyn y cwestiynau cywir, dadansoddi data a dod i wybod yr amrywiaeth o dystiolaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi eu gwerthusiad. Rydym wedi cymryd y cwestiynau o nifer o ffynonellau ac yn cydnabod mai cymysgedd o ddatganiadau o amrywiaeth eang o ddeunyddiau yw'r gwaith hwn.

Mae'r ddogfen hon yn ganlyniad i'r gwaith a gwblhawyd gan y Grŵp Hunanwerthuso AAA a nodir isod.

Aelodau'r Grŵp Hunanwerthuso AAA

Cheryl Jones – Athrawes Gynghorol (Cynhwysiad), Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg
Christine Goss – SENCO, Ysgol Gyfun Gatholig Esgob Vaughan
Yvonne Evans – SENCO, Ysgol Gynradd Brynmill
Ann Hughes – SENCO, Ysgol Gynradd Heol Teras
Elaine Rees – SENCO, Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw
Diane Dickson – SENCO, Ysgol Iau Gorseinon
Judy Evans – SENCO, Ysgol Gynradd Cadle
Debra Sully – Rheolwr Cynhwysiad, Ysgol Gyfun Esgob Gore
Pat Dawson – SENCO, Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt
Alison Thomas – SENCO, Ysgol Gynradd Treforys
Louise Jenkins – SENCO, Ysgol Gynradd Trefansel
Rachel Collins – SENCO, YGG Gellionnen